Leonard Cheshire Cymru

# Rhoi pobl anabl ynghanol gwleidyddiaeth Cymru

**Llinell Gyntaf**
Mae gan fwy nac un person oed gwaith o bob pump yng Nghymru anabledd.[1] Credir fod gan gymaint ag un person wedi ymddeol o bob tri anabledd. Ond nid yw'r amlder yma'n cael ei adlewyrchu yn arweinyddiaeth wleidyddol Cymru.

**Prif Ofynion**
Rydym yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymrwymo i:

- Gyhoeddi data dienw ar nifer yr ymgeisyddion anabl hunan-gydnabyddedig y mae plaid yn eu cynnig yn etholiad 2026.
- Dileu – cyn Ionawr 2022 – terfynau gwariant etholiadol ar bob ffurf ar wariant yn gysylltiedig ag anabledd (gan gynnwys fersiynau Easy Read a Braille o faniffestos).
- Sefydlu – cyn Ionawr 2022 – cronfa mynediad at swyddi etholedig gydag arian cyhoeddus sy'n darparu cyllid i ddarparu ar gyfer gwariant ymgeisyddion yn gysylltiedig ag anabledd.

**Ystadegau**

- Roedd 86 y cant allan o 700 o ymatebwyr i ymgynghoriad gan Gomisiwn Y Senedd yn credu na ddylai costau yn gysylltiedig ag anabledd unigolyn gyfrif tuag at derfynau gwariant ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeisyddion.[2]

**Cyd-destun**
Mae hon yn broblem gymhleth. Mae'n golygu fod rhaid i bobl anabl fod yn fodlon cynnig eu henwau yn ymgeisyddion. Mae'n golygu fod rhaid i bleidiau gwleidyddol fod yn fodlon dewis pobl anabl. Ac mae'n golygu fod rhaid i'r cyhoedd fod yn fodlon ethol pobl anabl.

**Gwybodaeth gefndir**
Mae tystiolaeth lafar gan bobl anabl sydd wedi ceisio dod yn ymgeisyddion gyda phleidiau gwleidyddol yn dangos fod yna yn aml bwyslais ar ganfasio (h.y. cnocio ar ddrysau yn gorfforol) fel agwedd ganolog yn rôl ymgeisydd. Dywedodd pobl anabl y gofynnwyd iddynt a fyddent yn gallu ymdopi â hyn. Mae hynny mewn gwirionedd yn rhoi'r baich ar unigolyn i oresgyn rhwystrau cymdeithas yn gysylltiedig ag anabledd, yn hytrach na'r sefyllfa y byddid yn ei dymuno lle y mae pleidiau gwleidyddol yn mynd ati o ddifrif i annog a chynorthwyo pobl anabl i gymryd rhan.

Hefyd, ar hyn o bryd ceir anghymhelliad gwyrdroëdig yn ein system etholiadol i bleidiau gwleidyddol ddewis ymgeisyddion anabl. Mae hynny oherwydd os yw plaid yn gwario arian ar offer neu addasiadau rhesymol eraill ar gyfer yr ymgeisydd, fod eu

[1] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/summaryofeconomicactivityinwales-by-year-disabledstatus-fromapril2013

[2] Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, Paragraff 97.

terfyn ar wario arian ar ymgyrchu go iawn yn cael ei leihau.

Nododd y Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 fod, ar 24 Medi 2018:

> **"y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Y Llywydd i ddweud fod Llywodraeth Cymru yn cytuno gyda Chomisiwn y Cynulliad y dylai... costau y gellid eu priodoli i anabledd unigolyn gael eu heithrio o derfynau gwariant etholiadol. Dywedodd y Prif Weinidog hefyd mai barn Llywodraeth Cymru oedd y byddai'n fwy priodol i'r materion gael sylw trwy is-ddeddfwriaeth."[3]**

Bron i ddwy flynedd yn ddiweddarach, ni roddwyd yr is-ddeddfwriaeth hon ar waith.

Hoffai Leonard Cheshire hefyd weld pob gwariant yn gysylltiedig ag anabledd yn cael ei eithrio o derfynau gwariant etholiadol, ac nid yn unig wariant yn gysylltiedig ag anabledd ymgeisydd unigol. Byddai hynny'n cynnwys, er enghraifft,, cost cynhyrchu'r cynnwys ar gyfer fersiwn Easy Read neu fersiwn Braille o faniffesto plaid. Eto, mae'r system bresennol mewn ffordd ddigon gwyrdroëdig yn cynnig anghymelliad i bleidiau gwleidyddol ymgysylltu â phobl ag anableddau. Bydd hynny yn ei dro yn cyfrannu at atal pobl anabl rhag meddwl nad yw cynnig eu henwau mewn etholiad 'yn ddewis inni.'

[3] Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, tudalen 32.